

GORCHYMYN CRYNOADAU ANIFEILIAID

Canllawiau bioddiogelwch i weithredwyr a
defnyddwyr yn Lloegr a Chymru





Mae'r Gorchymyn Crynoddau Anifeiliaid (Lloegr) 2010/Gorchymyn Crynoddau Anifeiliaid (Cymru) 2010 a'u trwydded gysylltiedig wedi'u cyflwyno i symleiddio a gwella'r drefn bioddiogelwch mewn crynoddau anifeiliaid. Mae'r newidiadau wedi'u gwneud ar ôl ymgynghori â'r rheini sy'n cynnal marchnadoedd, yn trefnu sioeau, yn eu mynychu ac yn gorfodi'r rheolau. Mae'r newidiadau'n rhagdybio mai'r diwydiant fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal y safonau bioddiogelwch sydd eu hangen i leihau'r potensial i ledaenu clefydau fel clwy'r traed a'r genau, cyn cadarnhau eu presenoldeb. Gall y mesurau hyn helpu hefyd i ddiogelu ffermydd rhag clefydau endemig eraill a allai fod yn gostus i'w rheoli.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi **cyngor bioddiogelwch hanfodol** i ategu'r hyn y mae'r Gorchymyn a'r Drwydded yn gofyn amdano.

Os ydych yn cynnal crynhoad

- Dylech ofalu fod pawb sy'n trin da byw yn gwybod beth yw'r clefydau hysbysadwy mewn anifeiliaid a sut i roi'r Cynllun Wrth Gefn ar gyfer Rheoli Clefydau y crynhoad ar waith
- Dylech ofalu fod yr holl staff rydych yn eu defnyddio i drin da byw wedi cael digon o hyfforddiant i ddeall peryglon bioddiogelwch gwael a'r canlyniadau pe bai clefydau'n cael eu lledaenu
- Gofalwch eich bod chi a'ch tîm yn gosod esiampl dda ac yn cadw at safonau bioddiogelwch da fel rhan o'ch gwaith pob dydd
- Dylai fod gennych gyfleusterau amlwg sy'n addas ac yn ddigonol i'r bobl sy'n trin anifeiliaid er mwyn iddynt allu:
 - sgwrio a diheintio eu hesgidiau wrth iddynt fynd i fan cadw'r anifeiliaid ac wrth adael
 - golchi eu dwylo yn drwyadl
 - golchi dillad dal dŵr
 - taflu unrhyw ddillad untro yn ddiogel
- Rhaid i drefnwyr sioeau ddarparu cyfleusterau i lanhau a diheintio cerbydau ac offer sydd wedi'u defnyddio yn y cylch anifeiliaid
- Byddwch yn barod i wrthod mynediad i unrhyw un sy'n dod i'ch crynhoad y gallai ei dillad neu ei gerbyd beryglu bioddiogelwch unrhyw un arall. Dywedwch wrthynt i lanhau eu dillad/cerbyd cyn gynted ag y medrant ac i ddefnyddio'r cyfleusterau sydd wedi'u darparu.




Os ydych yn mynychu crynhoad

- Gallwch leihau'r perygl o ledaenu clefyd trwy gadw at fesurau bioddiogelwch da bob tro wrth adael safle da byw
- Dylech ofalu'ch bod yn gwybod beth yw arwyddion clefydau hysbysadwy mewn anifeiliaid a'ch bod, os oes gennych amheumon, yn holi milfeddyg cyn gynted â phosibl
- Peidiwch â mynd i'r safle â dillad neu gerbyd cludo da byw (gan gynnwys trelars) sydd wedi'u baeddu â mwd neu ddeunydd fferm arall
- Bydd cyfleusterau wedi'u darparu i chi olchi a diheintio'ch esgidiau ac i sgwrio'ch dwylo. Defnyddiwch nhw
- Gallwch ledaenu clefydau wrth drin anifeiliaid; golchwch eich dwylo a'ch dillad/esgidiau cyn gadael y safle
- Dylech olchi a diheintio'ch cerbyd cludo da byw ar y safle cyn gadael os yw'n bosibl
- Byddwch yn ymwybodol o arwyddion clefydau yn yr anifeiliaid - os ydych yn credu bod yna achos ar y safle, byddwch yn barod i gydweithio â'r awdurdodau i roi'r Cynllun Wrth Gefn ar gyfer Rheoli Clefydau ar waith.

Os ydych yn cynnal crynhoad ar fferm

- Dylech fod yn ofalus iawn nad yw'r anifeiliaid sy'n dod i'r crynhoad yn dod i gysylltiad â'ch stoc chi
- Dylech gael offer yn unswydd ar gyfer y crynhoad neu os ydych yn symud offer rhwng y fferm a'r man crynhoi dylech eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr
- Dylai'r staff gadw at fesurau bioddiogelwch llym os ydynt yn symud rhwng y man crynhoi a'r fferm (e.e. trwy newid dillad a glanhau a diheintio esgidiau).

Cynhyrchwyd y daflen hon gan lechyd Anifeiliaid mewn cydweithrediad â:



PRIF SWYDDFA:

Animal Health Corporate Centre, Block C,
Government Buildings,

Whittington Road, Worcester WR5 2LQ

t +44(0)1905 763355 f +1905 768851

e corporate.centre@animalhealth.gsi.gov.uk

MAE IECHYD ANIFEILIAID YN ASIANTAETH WEITHREDOL O
ADRAN YR AMGYLCHEDD, BWYD A MATERION GWLEDIG AC MAE
HEFYD YN GWEITHIO AR RAN GWEITHREDIAETH YR ALBAN,
LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU A'R ASIANTAETH SAFONAU
BWYD

www.defra.gov.uk/animalhealth



Corporate member of
Plain English Campaign
Committed to clearer communication

475